

## PWYLLGOR SAFONAU

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 15 Gorffennaf, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Mr. R. Hendicott (Cadeirydd); Mrs. L. Tinsley (Is-Gadeirydd); Mrs. P. Hallett a Mr. G. Watkins (Aelodau Annibynnol); Y Cynghorydd M. Cuddy (Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned), Y Cynghorwyr: Ms. R.M. Birch, B.T. Gray ac A.R. Robertson (Cyngor Bro Morgannwg).

### EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Mr. R. Alexander.

### EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mai, 2021 fel cofnod cywir.

### EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau.

### EITEM AGENDA 4. CAIS AM GANIATÂD (SM/PGCD) -

PENDERFYNWYD - Dylid nodi na dderbyniwyd unrhyw geisiadau

#### Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

### EITEM AGENDA 5. SYLWADAU YNG NGHYFARFODYDD PWYLLGOR Y CYNGOR TREF A CHYMUNED (SM/PGCD) –

PENDERFYNWYD –

(1) BOD y diweddariadau llafar a roddwyd yn y cyfarfod parthed yr arsylwadau a wnaed gan Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau yn cael eu nodi.

(2) BOD Prif Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu ag Aelodau Annibynnol i sicrhau bod unrhyw ymweliadau arsylwi gan y Cyngor Tref a Chymuned sy'n weddill yn cael eu cynnal erbyn mis Tachwedd 2021.

(2) BOD y bwriad i barhau i arsylwi ar gyfarfodydd Cyngor Tref a Chymuned a Chyngor Bro Morgannwg gan Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau yn cael ei nodi a bod amserlen ymweliadau bellach yn cael ei llunio yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022.

#### Rheswm dros y penderfyniadau

(1-3) Wedi ystyried yr arsylwadau a wnaed a rôl y Pwyllgor Safonau.

#### EITEM AGENDA 6. DIWEDDARIAD CYNNYDD YN DILYN CYFLWYNO ADRODDIAD I'R PWYLLGOR CYSWLLT CYMUNEDOL (SM/PGCD) -

##### PENDERFYNWYD –

(1) BOD cynnwys yr adroddiad, yr Atodiad ac argymhelliad y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol fel y cyfeirir ato ym mharagraff 2.3 o'r adroddiad yn cael eu nodi.

(2) Y trefnir cyflwyno adroddiad cryno o'r pwyntiau dysgu allweddol o'r arsylwadau a wnaed mewn cyfarfodydd Cyngorau Tref a Chymuned, y meysydd i'w gwella a awgrymwyd a'r gwaith o gyflwyno adroddiad adolygu blynyddol a chyfleoedd meincnodi yng nghyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol ar ôl cwblhau'r ymweliadau â Chyngorau Tref a Chymuned sy'n weddill erbyn mis Tachwedd 2021.

#### Rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r Atodiad.

(2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

#### EITEM AGENDA 7. ADOLYGIAD FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL (SM/PGCD) –

##### PENDERFYNWYD –

(1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

(2) BOD adroddiad diweddar pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar ôl derbyn adroddiad a/neu unrhyw ganfyddiadau sy'n ymwneud â'r adolygiad.

#### Rheswm dros y penderfyniadau

(1 a 2) Rhoi gwybod i'r Aelodau o'r adolygiad o'r Fframwaith Moesegol yng Nghymru a chyfarfod diweddar a gynhaliwyd gyda'r Swyddog Monitro / Pennaeth y

Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd, y Dirprwy Swyddog Monitro a Chadeirydd y Pwyllgor Safonau gyda'r Ymgynghorydd Annibynnol.

EITEM AGENDA 8. GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON  
GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SM/PGCD) -

PENDERFYNWYD – BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi, gan ystyried y byddai diweddariad am yr ohebiaeth a gafwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac y byddai unrhyw faterion sy'n codi o dan Ran II yr adroddiad yn cael eu hystyried o dan Ran II yr agenda.

Rheswm dros y penderfyniad

Hysbysu Aelodau'r Pwyllgor.

EITEM AGENDA 9. UNRHYW EITEMAU ERAILL Y MAE'R CADEIRYDD  
WEDI PENDERFYNU EU BOD YN RHAI BRYS –

PENDERFYNWYD – BOD y mater canlynol, yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan y pennawd cofnodion yn cael ei ystyried.

EITEM AGENDA 9(i) ADRODDIAD YN YMWNEUD Â CHWYN YN  
ERBYN CYNGHORYDD A MEWN PERTHYNAS Â CHYNGOR CYMUNED B  
(SM/PGCD) -

**(Brys oherwydd yr angen i ystyried cyn y cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau**

PENDERFYNWYD – BOD yr adroddiad yn cael ei nodi a bod yr argymhellion a'r adroddiad yn cael eu hystyried mewn cysylltiad ag adroddiad Rhan II yn ddiweddarach yn yr agenda.

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn ystyried adroddiadau Rhan I a II gyda'i gilydd.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail eu bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl pob tebyg fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

EITEM AGENDA 10. GOHEBIAETH GYDAG OMBWDSMON  
GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (SM/PGCD) (GWYBODAETH  
EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

PENDERFYNWYD – BOD yr wybodaeth gyfrinachol a roddwyd gan y Swyddog  
Monitro yn cael nodi.

Rheswm dros y penderfyniad

Ystyried gohebiaeth a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon, gan nodi ei bod yn  
gyfrinachol ar hyn o bryd.

EITEM AGENDA 11. UNRHYW EITEMAU ERAILL Y MAE'R CADEIRYDD WEDI  
PENDERFYNU EU BOD YN RHAI BRYD

PENDERFYNWYD – BOD y mater canlynol, yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei  
fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan y pennawd cofnodion yn cael ei  
ystyried.

EITEM AGENDA 11(i) ADRODDIAD YN YMWNEUD Â CHWYN YN  
ERBYN CYNGHORYDD A MEWN PERTHYNAS Â CHYNGOR CYMUNED B  
(SM/PGCD) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 18C) –  
**Brys oherwydd yr angen i ystyried cyn y cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau**

PENDERFYNWYD –

- (1) Y DYLLID penderfynu y dylid rhoi cyfle i'r Cynghorydd A gyflwyno sylwadau  
mewn cyfarfod y Pwyllgor Safonau yn y dyfodol, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig  
mewn perthynas â chanfyddiadau'r ymchwiliad ac unrhyw gŵyn y mae wedi methu,  
neu a allai fod wedi methu, â chydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Cyngor  
Cymuned B.
- (2) Y DYLLID gofyn i swyddog ymchwilio Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus  
Cymru fynychu cyfarfod y Pwyllgor Safonau yn y dyfodol yn unol â Rheoliadau 8  
(3A) ac 8 (3C) o Reoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau  
Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001
- (3) BOD awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Swyddog Monitro mewn  
ymgyngoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau i gwblhau dogfen ddrafft yn nodi'r  
honiadau i'w cymeradwyo gan Aelodau'r Pwyllgor Safonau.
- (4) BOD cyfarfod y Pwyllgor Safonau yn y dyfodol i ystyried y mater yn cynnwys 5  
Aelod o'r Pwyllgor Safonau i gynnwys 3 Aelod Annibynnol, Cynghorydd Bro  
Morgannwg a chynrychiolydd y Cynghorydd Tref a Chymuned ar y Pwyllgor  
Safonau.

## Rhesymau dros y penderfyniadau

(1&2) Er mwyn cydymffurfio â darpariaethau Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001 (“Rheoliadau 2001”).

(3) Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor Safonau allu ystyried a chymeradwyo dogfen honiadau ddrafft.

(4) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad.